**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1341
Ein cyf/Our ref: JMEWL/00881/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

9 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mai ynghylch materion a godwyd mewn deiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau gan Zoe Beasley.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i greu system addysg gynhwysol a helpu i sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a/neu anghenion gofal iechyd, yn gallu cyflawni eu potensial.

Fel rhan o'n diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru, mae'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol yn cael ei disodli'n raddol gan y system ADY, sydd wedi'i seilio ar Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Cod ADY cysylltiedig. Dechreuwyd gweithredu'r system ADY newydd yn raddol ym mis Medi 2021, a bydd y broses yn parhau tan fis Awst 2025. Mae dysgwyr ag AAA yn symud i'r system ADY newydd fesul grwpiau.

Mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn creu un fframwaith deddfwriaethol sy'n helpu i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau pob unigolyn yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cael lle canolog yn y broses o nodi a diwallu eu hanghenion. Dylai hyn helpu i wneud y system newydd yn decach a chreu llai o wrthdaro. Mae'r system newydd hefyd yn sicrhau y cynllunnir yn briodol ar gyfer cymorth ychwanegol i ddiwallu ADY dysgwyr 0-25 oed sydd ei angen, gan ei ddiogelu mewn un Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol. Rydym hefyd wedi cryfhau hawliau plant drwy greu llwybrau clir i'w dilyn os oes anghydfod. Mae Cod ADY Cymru yn cynnwys pennod ar baratoi a chynnal CDU.

Fel rhan o'n gwaith i weithredu'r system ADY rydym wedi datblygu a chyflwyno pecyn helaeth o hyfforddiant, sy'n datblygu sgiliau craidd ac yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus i bob ymarferydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer Cydlynwyr ADY sy'n darparu rôl arwain strategol ac sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cychwynnol i athrawon sy'n chwilio am gyngor ac arweiniad ym maes ADY. Rydym hefyd wedi llunio canllawiau i rieni a phobl ifanc, sy'n cynnwys canllawiau ar hawliau o dan y system newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

O dan y Ddeddf ADY, mae gan blentyn ADY os oes ganddo anhawster neu anabledd dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) (a ddiffinnir fel darpariaeth sy'n addysgu neu'n hyfforddi). Mae'r Ddeddf ADY yn nodi y gallai anhawster neu anabledd dysgu sy'n cyfateb i ADY (oherwydd ei fod yn galw am DDdY) godi o ganlyniad i gyflwr meddygol, ond nid yw hyn yn golygu bod cyflyrau meddygol yn cyfateb i ADY. Mae darpariaethau'r Ddeddf ADY ond yn berthnasol i blentyn sydd ag angen gofal iechyd, megis diabetes, pan fo angen gofal iechyd y plentyn hwnnw yn arwain at ADY fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ADY, neu lle mae ganddo ADY nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion gofal iechyd. Felly, mae darpariaethau'r Ddeddf ADY ond yn berthnasol i blentyn ag anghenion gofal iechyd os yw'r anghenion hynny yn arwain at anhawster neu anabledd dysgu, neu os oes ganddo anhawster neu anabledd dysgu fel arall, sy'n galw am DDdY.

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, i helpu cyrff llywodraethu, lleoliadau addysg, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd a sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar eu haddysg. Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion roi sylw i'r canllawiau statudol hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 2002, wrth hyrwyddo lles plant sy'n ddysgwyr yn y lleoliad addysg, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd.

Mae dogfen Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn cynnwys canllawiau statudol a chyngor anstatudol. Mae'n cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru greu a chynnal polisi anghenion gofal iechyd i geisio sicrhau bod disgyblion ag unrhyw gyflwr meddygol, gan gynnwys diabetes, yn cael eu cefnogi'n briodol. Mae'n cynnwys cyngor ar hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin, ac mae'n pwysleisio'r angen i weithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd gydweithio, gan roi'r lle canolog i'r dysgwr wrth wneud penderfyniadau.

Bydd angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar rai dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn hanfodol lle mae'r anghenion gofal iechyd yn gymhleth, yn amrywio, yn hirdymor neu lle mae risg uchel y bydd angen ymyrraeth frys. Mae canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn nodi'r broses ar gyfer penderfynu p'un a oes angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol, ac yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau wrth eu creu a'u rheoli.

Mae cymorth ar gael i leoliadau addysg gan wasanaeth cyngor iechyd a all gynnwys:

- cyngor ar ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol;
- cymorth i nodi'r hyfforddiant sydd ei angen er mwyn i'r lleoliad addysg weithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn llwyddiannus;
- cefnogaeth i staff i weithredu Cynllun Gofal Iechyd Unigol dysgwr drwy gyngor a chyswllt â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac yn y trydydd sector.

Gellir darparu cyngor a chymorth iechyd hefyd gan weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol fel meddygon teulu, pediatregwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys diabetes arbenigol. Gall cyrff gwirfoddol y trydydd sector hefyd ddarparu cyngor a chymorth ymarferol. Gall ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol fod o gymorth ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol, a gallant hefyd ddarparu adnoddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys dolenni fideo.

Mae canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn nodi y dylid adolygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol o leiaf bob blwyddyn, neu'n amlach os bydd tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Pan fo gan ddysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd ADY hefyd, dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol gael ei gysylltu neu ei atodi i CDU y dysgwr. Mae'r Cod ADY yn esbonio, lle mae gan ddysgwr sydd ag ADY fwy nag un cynllun

y mae angen ei adolygu, y gellid ymgymryd â'r gwaith paratoi neu adolygu ar yr un pryd i hwyluso dull mwy cyfannol o gynllunio gofal a chymorth i'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae gan Rwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru sawl prosiect ar y gweill fel rhan o'i waith ym maes addysg, gan gynnwys Canllaw i Ysgolion Cymru Gyfan i helpu ysgolion i wella hyder staff, eu dealltwriaeth a'u gallu i ddelio'n ddiogel â Diabetes Math 1 mewn plant a phobl ifanc. Mae'r Rhwydwaith wedi datblygu deunyddiau hyfforddi staff sy'n cwmpasu'r testunau canlynol: cyflwyniad i Ddiabetes Math 1 yn yr ysgol; profi lefelau glwcos yn y gwaed yn yr ysgol; ymarfer cyfrif carbohydradau i staff ysgol; cyflwyniad i dechnoleg Diabetes i staff ysgol; ac ymarfer ac arholiadau.

O ran cyllid, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg addas ar gyfer pob dysgwr yn eu hardal, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a dylent weithio gyda'u hysgolion i sicrhau bod eu trefniadau cyllido ysgolion yn effeithiol i gefnogi a chodi lefelau cyflawniad pob plentyn. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardaloedd, sy'n cynnwys y gwasanaeth cyngor iechyd sydd ar gael i leoliadau addysg.

Os nad yw rhieni/gofalwyr dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd a/neu ADY yn fodlon â'r camau a gymerir gan yr ysgol ar ôl ceisio datrys materion yn anffurfiol gyda nhw, gallant ystyried gwneud cwyn ffurfiol i'r ysgol. Os nad ydynt yn fodlon â'r canlyniad ar lefel yr ysgol, gallant gysylltu â'r awdurdod lleol i weld a allan nhw helpu. Os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn y trafodaethau hyn, gallant wneud cwyn i'r awdurdod lleol. Gellir gwneud cwynion am wasanaethau'r GIG drwy 'Gweithio i Wella'.

Efallai y bydd gan ddysgwyr sydd ag ADY hefyd hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru sy'n gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau rhieni yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch ADY dysgwyr, lle na all rhieni ddod i gytundeb â'r awdurdod lleol. Gall plant sydd â diabetes, neu eu rhieni, apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad ynghylch a oes ganddynt ADY ai peidio, neu mewn perthynas â'r DDdY a ddarperir ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i apelio i'r Tribiwnlys dim ond oherwydd bod ganddynt ddiabetes neu oherwydd nad ydynt yn cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Mae'r Tribiwnlys Addysg hefyd yn delio â honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd yn yr ysgol. Mae rhagor o wybodaeth am y Tribiwnlys Addysg ar gael ar ei wefan.

Chwaraeodd rhanddeiliaid ran hanfodol yn y gwaith o ddatblygu canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd. Yn dilyn ymgysylltu pellach â grwpiau rhanddeiliaid perthnasol yn 2018, cyhoeddwyd tri chanllaw cyflym ar anghenion gofal iechyd i athrawon a staff cymorth, rhieni a phobl ifanc. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'n gwaith i ddiweddaru ystod eang o ganllawiau ar ôl gweithredu'r Ddeddf ADY, byddwn yn sicrhau bod canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn defnyddio'n briodol y derminoleg a ddefnyddir gan y Ddeddf ADY. Byddwn hefyd yn parhau i'w hadolygu yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd a allai ddod i'r amlwg a allai effeithio ar y maes polisi hwn.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg